
# AR OSOD

# TRWYDDED BLWYDDYN

# TIR YN Y MAES AWYR, Y RHWS

# Tua 1.97 ha (4.88 erw) oddeutu




**GWAHODDIR CYNIGION GAN BARTÏON Â DIDDORDEB**

Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English

VALE of GLAMORGAN

BRO MORGANNWG

| | |
|---|---|
| **LLEOLIAD:** | Tir yn y Maes Awyr, Y Rhws, fel sydd wedi ei amlinellu'n goch ar y cynllun at ddibenion adnabod yn unig. |
| **MAINT YR ARDAL:** | Tua 13.76 ha (34.02 erw) oddeutu. |
| **CYFNOD GOSOD:** | 1af Ebrill 2025 – 31ain Ionawr 2026. |
| **DEFNYDD:** | Addas i dyfu cnwd yn unig. Ni chaniateir cadw unrhyw anifeiliaid. |
| **FFI TRWYDDED:** | Bydd y tendrwr llwyddiannus yn talu ffi i'r Cyngor am yr hawliau ar gyfer y cyfnod uchod. Telir y ffi yn llawn ymlaen llaw. |
| **MYNEDIAD:** | O'r giât ar Blackton Lane |
| **GWARIANNAU:** | Bydd y tendrwr llwyddiannus yn gyfrifol am dalu pob gwariant mewn perthynas â'r tir. |
| **DŴR:** | Bydd y tendrwr llwyddiannus yn gyfrifol am unrhyw gyflenwadau dŵr. |
| **GWRTH-STOC:** | Mae'r trwyddedai yn gyfrifol am godi a chynnal yr holl ffensys a gatiau mewn cyflwr a all atal stoc trwy gydol cyfnod y drwydded.<br><br>Bydd y Trwyddedai'n cymryd y tir yn ei gyflwr presennol. |
| **DIOGELWCH:** | Bydd y Trwyddedai'n sicrhau diogelwch y tir ar bob adeg yn ystod Cyfnod y Drwydded yn erbyn ei ddefnydd (boed gydag awdurdod neu hebddo) gan deithwyr crwydrol, gwersyllwyr anghyfreithlon neu drydydd partïon eraill. |
| **CYTUNDEB:** | Bydd y tendrwr llwyddiannus yn mynd i gytundeb cyfreithiol priodol gyda Chyngor Bro Morgannwg er mwyn unioni'r feddiannaeth. |
| **DULL GOSOD:** | Mae angen i ddarpar dendrwyr ddilyn y weithdrefn a nodir yn y dogfennau tendro cysylltiedig. Tynnir sylw penodol at yr "Amodau Cyflwyno Cynigion". |
| **GWELD Y TIR:** | Gellir mynd i weld y tir ar unrhyw adeg cyn dyddiad cau'r broses dendro. Bydd unrhyw bersonau sy'n edrych dros y tir yn gwneud hynny ar eu risg eu hunain yn llwyr ac ni all, ac ni wnaiff, Cyngor Bro Morgannwg dderbyn unrhyw atebolrwydd dros unrhyw golled neu niwed a achosir mewn unrhyw ffordd. |
| **DIWEDDU:** | Mae gan y Trwyddedai'r hawl i ganslo'r Drwydded heb rybudd pellach os caiff unrhyw un o'r telerau ac amodau eu torri. |

**FFIOEDD A CHOSTAU:** Bydd y Trwyddedai'n gyfrifol am dalu ffioedd syrfewyr Cyngor Bro Morgannwg, sef £93.68 (naw deg tri punt ac chwech deg wyth ceiniog) heb gynnwys TAW, a chostau Cyfreithiol priodol y Cyngor, sef £187.45 (cant wyth deg saith punt ac pedwar deg pump ceiniog) ar gyfer paratoi'r Drwydded a'i gwrthran

**CYFLWYNO CAIS:**

Y dyddiad cau caeth ar gyfer cyflwyno cynigion tendr yw **12 Ganol Dydd 19 Chwefror 2025.**

Rhaid cyflwyno'r cynnig yn yr amlen swyddogol gyda'r Label Tendr swyddogol wedi ei gludo ar y tu allan â'r teitl **"Tir yn y Maes Awyr, Y Rhws"**. Rhaid selio'r amlen swyddogol yn dynn ac NI DDYLAI ddangos unrhyw farc a allai ddangos pwy yw'r anfonwr/ymgeisydd. Er mwyn osgoi amheuaeth, **ni dderbynnir cynigion a gyflwynir drwy e-bost. Ni ddylid danfon cynigion yn â llaw.**

Dylid cyflwyno cynigion yn llawn ac yn y dull a nodir uchod i:

**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol,**
**Cyngor Bro Morgannwg**
**Swyddfeydd Dinesig**
**Heol Holltwn**
**Y Barri CF63 4RU.**

## Deddf Camliwio

Cynigir yr eiddo yn dibynnu ar gontract a heb ragfarn. Ceidw'r Cyngor yr hawl i wrthod unrhyw gynnig a wneir ac nid oes ymrwymiad arno i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig arall ar gyfer yr eiddo.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y manylion hyn yn gywir, ond ni all y Cyngor dderbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw gamliwiad a wneir yn y manylion hyn neu ar lafar. Rhaid i unrhyw barti â diddordeb fodloni ei hun bod y manylion hyn yn gywir. Defnyddir y manylion hyn fel canllaw cyffredinol yn unig ac nid ydynt yn ffurfio unrhyw ran o unrhyw gynnig neu gontract.

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG